**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Ken Skates AS, Comisiynydd y Senedd
Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru
Dr Kathryn Chamberlain, Cadeirydd Bwrdd Archwilio Cymru
Michelle Morris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

4 Mai 2023

Annwyl bawb,

Adolygiad o'r Datganiad o Egwyddorion

Fel y byddwch yn ymwybodol, ym mis Mai 2019, cyhoeddwyd Datganiad o Egwyddorion ('yr Egwyddorion') y Pwyllgor Cyllid, sy'n nodi bod yn disgwyl i Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol roi sylw iddo wrth wneud cynigion cyllidebol. Cyflwynwyd yr Egwyddorion yn dilyn ymchwiliad byr i sicrhau bod Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yn defnyddio dull cyson wrth baratoi eu cynigion cyllideb/amcangyfrifon.

Yn unol â pharagraff 9 o'r Egwyddorion, cawsant eu hadolygu flwyddyn ar ôl eu gweithredu yn 2020. Bryd hynny, cydnabu'r Pwyllgor Cyllid yn y Bumed Senedd fod dogfennaeth cyllideb pob corff a ariennir yn uniongyrchol yn dangos yr Egwyddorion i ryw raddau a thrafodwyd hyn yn fanylach mewn sesiynau craffu. Gan hynny, daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod yr Egwyddorion yn addas i'r diben ac ni wnaed unrhyw newidiadau.

Ar ddechrau'r Senedd hon, cytunodd y Pwyllgor y dylid adfer yr Egwyddorion (Gorffennaf 2021), gyda'r bwriad o'u hadolygu ar ôl i'r Pwyllgor brofi proses y gyllideb. O ystyried bod y Pwyllgor bellach wedi cynnal dau gylch cyllidebol a'n bod hanner ffordd drwy'r Chweched Senedd, ymddengys ei bod yn amser priodol i adolygu'r Egwyddorion eto.

Byddwn yn ddiolchgar, felly, o gael eich barn am yr Egwyddorion (sydd ynghlwm fel atodiad), gan gynnwys eu heffeithiolrwydd, ac am amseroldeb a chynnwys y wybodaeth a ddarparwyd gan y

Gweinidog Cllid a Llywodraeth Leol sy'n darparu cyd-destun i lywio'r ffordd y mae Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yn ymdrin â'u cynlluniau cyllideb.

Yn ogystal, byddai gennym ddiddordeb hefyd mewn clywed eich barn am y broses ar gyfer y gyllideb atodol/yr amcangyfrif ac a yw'r trefniadau presennol yn darparu digon o hyblygrwydd, ynteu a ydych yn credu bod lle i'r broses gael ei chryfhau drwy'r Rheolau Sefydlog neu drwy wneud newidiadau i'r Egwyddorion eu hunain.

Fel cefndir, ar ddiwedd y Bumed Senedd, ymgymerodd y Pwyllgor Cyllid â gwaith fel rhan o'i Adroddiad Gwaddol ac fe ystyriodd broses cyllideb Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol. Mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyrff hyn ddarparu memorandwm esboniadol ar yr adeg y mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ei chynnig cyllideb atodol. Dywedodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ar y pryd:

> *"But actually I know that, in practice, they [DFBs] provide more information ahead of that, and that does obviously allow then you, as committee, to consider those issues before the Welsh Government tables its supplementary budget motion. I think that's been a helpful development, but it's not reflected in Standing Orders, so that might be something to be considered as an improvement for future years."*

Yn dilyn hynny, argymhellodd yr Adroddiad Gwaddol fod:

> *"… pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn ymgymryd â gwaith pellach i ystyried a ddylid adolygu'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â chyllidebau atodol."*

Mae'n ymddangos yn briodol, felly, ystyried y mater hwn ochr yn ochr â'n hadolygiad o'r Egwyddorion. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â mi neu â Leanne Hatcher, y prif glerc ar yr ymchwiliad hwn, ar 0300 200 6364, seneddcyllid@senedd.cymru. Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn 16 Mehefin 2023.

Mae Pwyllgor y Llywydd, sy'n gyfrifol am graffu ar amcangyfrif y Comisiwn Etholiadol o ran ei swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru, wedi mabwysiadu'r Egwyddorion yn flaenorol. O'r herwydd, anfonir copi o'r llythyr hwn at Bwyllgor y Llywydd a fydd efallai am ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol ar y materion hyn.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Atodiad A

## Datganiad o Egwyddorion y mae Pwyllgor Cyllid y Senedd yn disgwyl i Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol roi sylw iddynt wrth wneud cynigion cyllidebol.[1]

Gorffennaf 2021

### Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn cynnwys cyfres o egwyddorion y dylai Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol eu hystyried wrth baratoi eu cynigion cyllidebol blynyddol.

2. Mae'r Pwyllgor Cyllid o'r farn y dylai amcangyfrifon cyllideb fod yn dryloyw ac yn ddarbodus ac y dylent adlewyrchu'r cyfyngiadau ariannol yn y sector cyhoeddus.

### Dull gweithredu'r Egwyddorion

3. Dylid gosod ceisiadau cyllidebol yng nghyd-destun y sefyllfa ariannu hirdymor yng Nghymru, a'r pwysau ariannol sy'n bodoli yn y sector cyhoeddus ehangach.

4. Dylai ceisiadau ddangos sut y caiff amcanion blynyddol ac amcanion amlflwydd eu blaenoriaethu, eu monitro a'u cyflawni.

5. Ni ddylai Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ragdybio unrhyw gynnydd yn eu cyllidebau, waeth beth fo'r newid yn y grant bloc, gan fod unrhyw gynnydd yn eu cyllidebau yn lleihau'r adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus datganoledig eraill.

6. Dylai Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol geisio gwella eu prosesau a sicrhau arbedion yn barhaus.

7. Mewn achosion lle y gwneir cais am gynnydd mewn cyllid, dylid cefnogi unrhyw gais o'r fath gyda thystiolaeth o'r angen a'r budd sydd ynghlwm wrth y cais, a thystiolaeth o'r ymdrechion a wnaed i leihau costau cysylltiedig. Yn ogystal, dylid egluro a meintioli'r canlyniadau sydd ynghlwm wrth beidio â sicrhau'r cynnydd mewn adnoddau y gofynnwyd amdano.

### Y wybodaeth sydd ar gael i'w defnyddio

8. Bydd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Cyllid cyn toriad yr haf am amryw ffactorau y gellir eu defnyddio i lywio cynlluniau cyllideb yn y dyfodol, megis y canllawiau diweddaraf ar gylchoedd gwaith cyflog y sector cyhoeddus, rhagolygon datchwyddwyr Cynnyrch Mewnwladol Crynswth, rhagolygon trethi datganoledig ac asesiad gorau posibl Llywodraeth Cymru o

[1]Comisiwn y Senedd; Swyddfa Archwilio Cymru; Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

lefel gyffredinol y cyllid sydd ar gael yn y blynyddoedd i ddod. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei hanfon ymlaen gan y Pwyllgor Cyllid at Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ar gyfer ei hystyried.

## Adolygiad o'r Datganiad o Egwyddorion

9. Bydd y ddogfen hon yn cael ei hadolygu gan y Pwyllgor Cyllid yn y flwyddyn weithredu ac yn rheolaidd wedi hynny, ac fe'i diwedderir yn ôl yr angen.